GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Sicrhau Gwerth, Arloesi a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

Ein Buddion

shared.services@wales.nhs.uk

www.pcgc.gig.cymru

Ein **Buddion**

Cymorth i Brynu

Opsiynau aberthu cyflog sy'n cynnwys:

- Cynllun car ar brydles
- Cynllun offer electronig i'r cartref
- Cynllun Seiclo i'r Gwaith
- Cynllun Benthyg Arian o'ch Cyffog

Mae opsiynau eraill yn cynnwys:

- Cerdyn Blue Light
- Cynlluniau Pensiwn y GIG a Nest
- Health Shield
- Gostyngiadau Gwasanaeth

Buddion

- Gwyliau hael
- Prynu Gwyliau Blynyddol
- Mentrau Ariannol a Llesiant Iechyd
- Gwobrau gwasanaeth hir
- Gwobrau cydnabod staff
- Rhaglen Gymorth i Weithwyr
- Rhaglen Brechu rhag y Ffliw
- Gorsaf Werthfawrogi

Gyrfa

- Llwybrau Gyrfa
- Lleoliadau Gwaith
- Rhaglen i Raddedigion
- Prentisiaethau
- Datblygiad Proffesiynol

Yr Amgylchedd

- Cydnabyddiaeth
- Ymddiriedaeth
- Ymreolaeth
- Cyflawniad Personol
- Cydbwysedd Bywyd a Gwaith
- Cydweithio
- Gweithio Ystwyth
- Cynhwysiant

Cymorth i Brynu

Aberthu Cyflog

» Mae trefniant aberthu cyflog yn gytundeb i leihau hawl gweithiwr i dâl mewn arian, fel arfer yn gyfnewid am fudd anariannol.

Cynllun car ar brydles

» NHS Fleet Solutions yw cynllun aberthu cyflog sector cyhoeddus gwreiddiol y DU, sy'n cynnig car newydd sbon o'ch dewis ar brydles dwy neu dair blynedd.

Cynllun teclynnau electronig i'r cartref

» Gallwch ddewis o amrywiaeth o ddyfeisiau ac eitemau electronig i'r cartref, a fydd yn gwneud arbedion ar eich Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn – yn y pen draw mae'n gyfle i chi arbed arian ar dechnoleg a ddefnyddir yn y cartref a lledaenu'r gost, heb unrhyw flaendaliadau na thaliadau cudd.

Cynllun Seiclo i'r Gwaith

» Mae'r Cynllun Seiclo i'r Gwaith yn fuddiant gwych i weithwyr sy'n cynnig y ffordd fwyaf cost-effeithiol o gael offer seiclo newydd. Gallwch fanteisio ar y cynllun hwn trwy aberthu'ch cyflog. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn talu treth nac yswiriant gwladol ac y byddwch yn arbed rhwng 33.25% a 43.25% ar eich beic newydd a'r ategolion. Mae'r gost lai hon yn cael ei thynnu o'ch cyflog dros 12 neu 18 mis, felly nid oes angen poeni am gostau untro mawr!

Cynllun Benthyg Arian o'ch Cyflog

» Rydym yn cynnig benthyciadau fforddiadwy – i gyd wedi'u hategu gan addysg ariannol hygyrch a diddorol i wella'ch llesiant ariannol.

Cerdyn Blue Light

» Gwasanaeth disgownt ar gyfer y gwasanaethau brys, y GIG, y sector gofal cymdeithasol a'r lluoedd arfog sy'n darparu miloedd o ostyngiadau anhygoel i'n haelodau ar-lein ac ar y stryd fawr. Am £4.99 yn unig, caiff aelodau o'r gymuned Blue Light y cyfle i fanteisio ar 15,000 o ostyngiadau gan fân-werthwyr cenedlaethol mawr i fusnesau lleol am gyfnod o ddwy flynedd, a hynny ar draws categorïau fel gwyliau, ceir, diwrnodau allan, ffasiwn, anrhegion, yswiriant, ffonau, a llawer mwy.

Cynllun Pensiwn y GIG

- Mae cynllun Pensiwn Cyfraniadau Budd Diffiniedig y GIG wedi'i warantu'n llawn gan y llywodraeth, gyda'r GIG yn rhoi 20.6% o gyflog aelod ar ben ei gyfraniadau ei hunan. Mae dechreuwyr newydd i'r GIG yn cael eu cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn y GIG. Fodd bynnag, mae'n wirfoddol, a gall gweithwyr ddewis eithrio.

Cynllun Pensiwn Nest

- Mae NEST yn gynllun pensiwn gweithle cymwys a sefydlwyd i helpu cyflogwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau Cofrestru Awtomatig. Gyda NEST, mae gan weithwyr un gronfa ymddeol a all aros gyda nhw am oes, p'un a ydynt yn newid swydd neu'n gweithio i fwy nag un cyflogwr.

Gostyngiadau Gwasanaeth Iechyd

- P'un a ydych yn ymdrechu hyd yr eithaf ar y rheng flaen neu yn y swyddfa gefn, os ydych yn gweithio ym maes gofal iechyd gallwch arbed arian gyda'n hystod enfawr o ostyngiadau GIG a gofal iechyd, bargeinion a thalebau arbed arian, gan gynnwys bargeinion teithio a gwyliau, gostyngiadau ffasiwn, arian oddi ar nwyddau trydan a nwyddau i'r cartref, i ostyngiadau ar ffonau symudol,cyfleustodau, a cherdyn ad-dalu unigryw.

Health Shield

- Mae Health Shield yn gynllun arian parod sy'n ffordd wych o ofalu am eich iechyd a'ch llesiant wrth i chi hawlio costau eich gofal iechyd bob dydd yn ôl megis triniaethau deintyddol, sbectol bresgripsiwn a lensys cyffwrdd, sesiynau Ffisiotherapi, ymgynghoriadau preifat gydag arbenigwyr a llawer mwy. Mae'n hawdd ei sefydlu trwy ddidyniad o'ch cyflog ac yn anad dim mae modd i chi, eich partner a'ch plant fanteisio ar hyn. Nid oes angen talu am yswiriant i'ch plant os ydynt o dan 21 oed.

Buddion

Gwobrau Gwasanaeth Hir

- Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfraniad amhrisiadwy a wneir gan ei gweithwyr ac mae'n dymuno annog a gwobrwyo teyrngarwch, cymhelliant a phrofiad. (Bydd hyn yn seiliedig ar hyd eich gwasanaeth gyda'r GIG, nid dim ond PCGC).

Prynu Gwyliau Blynyddol

- Mae'r cynllun prynu gwyliau blynyddol yn fudd syml, hyblyg i weithwyr. Mae'r cynllun yn gweithio trwy aberthu cyflog, gyda gweithwyr yn cytuno i ostyngiad mewn cyflog yn gyfnewid am wyliau ychwanegol.

Cynlluniau Ariannol a Llesiant Iechyd

- Mae'ch iechyd a'ch llesiant o'r pwys mwyaf i ni yn PCGC. Rydym eisiau sicrhau ein bod yn gefn i chi ac yn darparu'r pethau sy'n gwneud i chi deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus, a'ch bod yn cael pob cymorth i ddatblygu. Bydd hynny'n sicrhau eich bod yn hapus yn y gwaith a gartref.

- Rydym yn cynnig adnoddau, cysylltiadau, awgrymiadau ac arweiniad ar-lein er mwyn helpu i gynnal eich iechyd a'ch llesiant. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth, ffeithlenni llesiant ac adnoddau addysgol i'ch helpu pan fyddwch yn wynebu heriau bywyd.

Gwyliau hael

- Bydd hawliau gwyliau blynyddol fesul blwyddyn wyliau yn dechrau ar 28 diwrnod (ac yn cynyddu'n gynyddrannol yn seiliedig ar hyd eich gwasanaeth). Yn ogystal â hawl i wyliau blynyddol, mae gan staff hawl i 8 Gŵyl y Banc Statudol â thâl. Yn achos yr holl staff rhan-amser, mae'r hawl hwn pro rata i'r lwfans llawnamser o 28 diwrnod o wyliau blynyddol ac 8 diwrnod gŵyl banc. Mae cyfrifo'r hawl hon bob amser yn gymesur â nifer yr oriau contract sylfaenol a weithiwyd. Bydd gan bob aelod newydd o staff hawl i wyliau blynyddol ynghyd â Gwyliau Banc Statudol yn ystod y flwyddyn mae'n ymuno â'r GIG, ar sail pro-rata.

Gorsaf Werthfawrogi

- Mae Gorsaf Werthfawrogi PCGC yn darparu llwyfan digidol i staff gydnabod cydweithwyr a chaiff ei chyhoeddi ar y dudalen hon, yn fewnol drwy fewnrwyd ein staff yn ogystal â thrwy'r holl sgriniau teledu ar ein safleoedd.

Gwobrau Cydnabod Staff

- Mae Gwobrau Staff PCGC yn gyfle i'n cydweithwyr gael cydnabyddiaeth haeddiannol am eu gwaith mewn amrywiaeth o feysydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi enwebu a chydnabod eich cydweithwyr yn unol â gwerthoedd ac amcanion craidd y sefydliad.

Rhaglen Gymorth i Weithwyr (EAP)

- Beth yw'r EAP? Mae'r EAP yn wasanaeth llesiant cyfrinachol sy'n cynnig cymorth a chyngor ymarferol ar amrywiaeth o bynciau (e.e. profedigaeth, straen, pryder, rheoli arian a hawliau cyfreithiol) a allai fod yn effeithio ar lesiant neu gyflawniad gweithwyr.

Rhaglen Brechu rhag y Ffliw

- Yn seiliedig ar eu cymhwysedd, bydd gan staff PCGC fynediad i frechiad ffliw rhad ac am ddim.

Gyrfa

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi yn natblygiad a gyrfaoedd ein gweithwyr. Mae rhai o'n cyfleoedd yn cynnwys:

Datblygiad Proffesiynol

Mae datblygiad proffesiynol yn broses sydd â'r nod o wella a chynyddu galluoedd staff trwy gael cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn y gweithle neu drwy wylio eraill yn cyflawni eu swyddi. Mae PCGC yn cynnig y cyfle i ennill cymwysterau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau achrededig a dysgu wrth weithio. Ochr yn ochr â hyn, mae tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol PCGC yn datblygu ac yn cyflwyno nifer o gyrsiau a gweithdai y gallwch fanteisio arnynt. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys dysgu er mwyn datblygu:

- Sgiliau Arwain
- Sgiliau Rheoli Pobl
- Llesiant
- Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gwelliant Parhaus
- Sgiliau Digidol
- Sgiliau Cymraeg
- Sgiliau Hanfodol

Lwybrau Dechrau Gyrfa

Mae PCGC yn cefnogi llwybrau dechrau gyrfa yn y gymuned ac ar bob lefel o'r sefydliad fel rhan o'r Agenda Ehangu Mynediad. Rydym wedi ymrwymo i ehangu mynediad ar bobl lefel ar draws y sefydliad gyda rhagor o gyfleoedd yn dod i'r fei ymhen amser mewn amrywiaeth o lwybrau a rhaglenni gwahanol.

- Lleoliadau Gwaith
- Prentisiaethau
- Rhaglen i Raddedigion

Rydym hefyd yn cynorthwyo gweithwyr i ennill cymwysterau sy'n benodol i'w Proffesiwn

Yr Amgylchedd

Ymreolaeth

» Byddwn yn eich grymuso i weithio'n annibynnol, sy'n golygu bod gan weithwyr y rhyddid i weithio mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.

Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

» Rydym yn annog cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith, gan flaenoriaethu gofynion gyrfa gweithiwr a gofynion ei fywyd personol.

Cydnabyddiaeth

» Rydym yn dathlu eich cyflawniadau ac yn cydnabod y gwaith rhagorol y mae ein gweithwyr yn ei wneud.

Cydweithio

» Rydym yn gweithio gydag unigolion gan gynnwys cleifion, cydweithwyr a sefydliadau eraill; gan ymfalchïo yn ein gwaith, gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd, bod yn onest ac yn agored a gwrando ar gyfraniad eraill.

Ymddiriedaeth

» Rydym yn helpu'n holl gydweithwyr i wneud y swyddi y maent wedi cytuno i'w gwneud. Byddwn yn gofyn yn rheolaidd beth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn well, ac yn ceisio darparu'r cyfleusterau angenrheidiol i ragori yn y gofal y maent yn ei roi. Byddwn yn gwrando ar ein cydweithwyr ac yn gweithredu ar eu hadborth a'u pryderon.

Cyflawniad Personol

» Rydym yn buddsoddi mewn dysgu a datblygu. Rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n fanteisiol i gleifion a defnyddwyr ein gwasanaethau drwy ddefnyddio adnoddau, systemau ac amgylcheddau sy'n caniatáu i ni weithio'n fedrus, yn ddiogel ac yn effeithiol. Rydym yn ddyfeisgar, yn addasu ac yn lleihau amrywiadau amhriodol gan ystyried y sylfaen briodol o dystiolaeth i'n harwain.

Cynhwysiant

- Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn sefydliad cynhwysol, sy'n galluogi staff i gael llais drwy gael cyfleoedd i gyfrannu drwy fentrau megis y rôl Hyrwyddwr Newid Diwylliant a'r rôl Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant. Rydym yn helpu cydweithwyr trwy gynnig nifer o rwydweithiau staff ac rydym yn aelod o'r Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant a gydnabu PCGC yn 2022 trwy ddyfarnu Gwobr Canmoliaeth Uchel mewn Gwella Llesiant a Pherthyn yn y Gwaith.

Gweithio Ystwyth

- Mae gweithio ystwyth yn cynnig potensial enfawr i ni gydweithio yn effeithiol a gwella sut rydym yn gweithio er budd ein cwsmeriaid. Yn ogystal â'n helpu i ddarparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid, mae'n rhoi cyfle i chi ganolbwyntio ar ganlyniadau a chynnal cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Diolch am ddarllen. Os hoffech chi gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

01443 848585

shared.services@wales.nhs.uk

www.pcgc.gig.cymru

@nwssp

NHS Wales Shared Services Partnership

NHS Wales Shared Services Partnership,
4-5 Charnwood Court,
Hoel Billingsley,
Parc Nantgarw,
Cardiff,
CF15 7QZ

Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.
nwssp.communications@wales.nhs.uk